

Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

Grŵp NPTC Group

**Heol Dŵr y Felin
Castell-nedd
SA10 7RF**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn â Grŵp NPTC Group

Enw'r darparwr	Grŵp NPTC Group
Manylion am ddarpariaeth / rhaglenni addysg bellach y coleg (h.y. mwy ar gymeriad y coleg a'i arbenigeddau)	<p>Sefydlwyd Grŵp Colegau NPTC yn 2013 ar ôl uno Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys. Mae'n goleg addysg bellach mawr gyda thua 4,103 o gofrestrïadau dysgwyr addysg bellach yn y flwyddyn academaidd bresennol (2025-2026). Cyfanswm cyllid addysg bellach y coleg ar gyfer 2025-2026 yw tua £34m. Mae'r coleg yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau addysg alwedigaethol a chyffredinol ar draws gwahanol lefelau ac ardal ddaearyddol fawr sy'n cwmpasu Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Mae'n gweithredu ar draws campysau yng Nghastell-nedd, Margam, Aberhonddu, Y Drenewydd, Pontardawe, Abertawe, Llandarsi a Maesteg. Yn Aberhonddu, mae datblygiadau diweddar yn cynnwys darpariaeth canol tref newydd yn Y CWTCH ac Y Gaer, ac adleoli gwasanaethau'r celfyddydau creadigol, y diwydiannau digidol a gwasanaethau proffesiynol i gampws newydd yn Watton Mount yn 2025. Mae'r coleg yn gwasanaethu cymunedau sydd â nodweddion economaidd-gymdeithasol amrywiol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd cymharol, tra bod Powys yn awdurdod gwledig yn bennaf gyda phoblogaeth wasgaredig. Mae cynnig cwricwlwm y coleg yn adlewyrchu'r gwahanol gyd-destunau lleol hyn ac yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ddysgu pellach, addysg uwch, a chyflogaeth.</p>

Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, e.e. newidiadau yn enw'r darparwr neu'r campysau, uno, cyfuno neu newid mewn perchnogaeth	Yn Aberhonddu, bu symudiad strategol i ganol y dref. Agorwyd Y CWTCH yn 2020, ac wedyn Y Gaer yn 2023. Ym mis Medi 2025, symudodd myfyrwyr sy'n astudio'r Celfyddydau Creadigol a'r Diwydiannau Digidol (CADI) a Gwasanaethau Proffesiynol i'r campws newydd yn Watton Mount.
Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach amser llawn	3361
Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach rhan-amser	742
Nifer y dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)	239
Nifer y dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal	82 o ddysgwyr amser llawn; 18 o ddysgwyr rhan-amser
Nifer y dysgwyr sy'n ofalwyr ifanc	98
Nifer y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg?	300 o ddysgwyr amser llawn (8.93%); 61 o ddysgwyr rhan-amser (8.22%)
Nifer y dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig	229 o ddysgwyr amser llawn (6.81%); 43 o ddysgwyr rhan-amser (5.8%)
Nifer y dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (y ddau gwintel uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)	1760 o ddysgwyr amser llawn (52.4%); 353 o ddysgwyr rhan-amser (47.6%)
Nifer y dysgwyr sy'n hawlio Lwfans Cynhالياeth Addysg (EMA)	1006 o ddysgwyr amser llawn (29.93%)
Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gyflogir yn uniongyrchol gan y coleg	734
Perchnogaeth y coleg (corfforaeth addysg bellach annibynnol neu is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr sefydliad addysg uwch)	Corfforaeth addysg bellach annibynnol

Dyddiad penodi'r Prif Weithredwr / Pennaeth	Penodwyd y Prif Weithredwr ym mis Mawrth 2004
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/02/2020

Crynodeb

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ymgysylltu, wedi eu cymell ac yn ymddwyn yn barchus, gan gyfrannu at amgylcheddau dysgu digynnwrf a phwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn dangos medrau ymarferol cryf. Maent yn cymhwysu'r rhain yn effeithiol mewn cyd-destunau realistig ac sy'n berthnasol i ddiwydiant ac yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gwblhau eu rhaglenni. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'u cynnydd bob amser.

Mae llawer o athrawon yn cyflwyno sesiynau difyr a strwythuredig ac yn defnyddio'u harbenigedd pwnc yn briodol i gefnogi dysgu. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau ymarferol, arddangosiadau ac offer digidol i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw holi'n datblygu medrau meddwl lefel uwch dysgwyr yn gyson, ac mewn ychydig o achosion, nid yw addysgu'n ymestyn a herio dysgwyr yn ddigonol, yn enwedig dysgwyr mwy abl. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar sy'n galluogi dysgwyr i wella'u gwaith, er bod ansawdd yr adborth a gofnodir yn rhy amrywiol. Nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digonol yn gyson i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg.

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a dysgwyr yn cyfrannu at agweddau cadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o wasanaethau cymorth a gwaith partneriaeth effeithiol sy'n helpu cydlynu cymorth, yn ymateb i anghenion dysgwyr, ac yn ymestyn cyfleoedd dysgu. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn rhy amrywiol. Nid yw'r coleg yn gwahaniaethu'n ddigon clir rhwng dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)¹, ac felly ag angen am gynllun datblygu unigol, a'r rhai y gellir diwallu eu hanghenion trwy ddarpariaeth gyffredinol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn cyfathrebu'n effeithiol â staff. Mae llawer o staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu proffesiynol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae arweinwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid i ymateb i flaenoriaethau lleol a rhanbarthol ac ymestyn cyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr. Mae trefniadau llywodraethu yn gadarn, ac mae llywodraethwyr yn defnyddio ystod addas o wybodaeth i gefnogi a herio arweinwyr. Fodd bynnag, mae effaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn rhy amrywiol, ac nid yw arweinwyr yn sicrhau cysondeb digonol o ran pa mor effeithiol y caiff blaenoriaethau gwella eu gweithredu a'u monitro.

¹ Llywodraeth Cymru (2018), Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r coleg i barhau i wella, sef:

- A1 Diwygio'r dull o nodi a diwallu anghenion dysgwyr ag ADY a darparu arweiniad clir i staff ar strategaethau i gefnogi'r dysgwyr hyn
- A2 Gwella effeithiolrwydd yr addysgu, yn enwedig defnyddio holi i ymestyn meddwl dysgwyr, a sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei ymestyn a'i herio'n briodol
- A3 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i sicrhau bod arweinwyr yn nodi gwendidau allweddol yn gywir a chymryd camau gweithredu effeithiol i sicrhau gwelliant ar draws y coleg
- A4 Cynyddu defnydd ystyrion o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm fel bod mwy o ddysgwyr yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau Cymraeg ac yn deall perthnasedd y Gymraeg i ddysgu, dilyniant a chyflogaeth

Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol ag adran 80 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 neu adran 62 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, bydd y darparwr yn paratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i gynllun gweithredu yn sgil yr adroddiad arolygu.

Prif ganfyddiadau

Addysgu a dysgu

Mae bron pob un o'r dysgwyr ar draws y coleg wedi ymgysylltu, wedi eu cymell ac yn dangos mwynhad yn eu dysgu. Mae ymddygiad dysgwyr ar draws sesiynau yn gyson barchus a phroffesiynol, ac yn cyfrannu at amgylcheddau dysgu digynnwrf a phwrpasol. Mae dysgwyr yn hyderus i ofyn cwestiynau, cyfrannu at drafodaethau a chefnogi eu cyfoedion, gan greu diwylliant dysgu cydweithredol cryf lle mae dysgwyr yn rhannu syniadau ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n effeithiol yn annibynnol ac ar y cyd o fewn sesiynau. Maent yn rheoli eu hamser yn dda ac yn gwneud cynnydd gyda'r cymorth lleiaf, yn enwedig mewn gweithgareddau ymarferol ac astudio annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn dangos medrau ymarferol cryf mewn meysydd galwedigaethol. Maent yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu sy'n berthnasol i ddiwydiant, sy'n eu galluogi i gymhwyso'u gwybodaeth mewn lleoliadau realistig a gwneud cynnydd cadarn tuag at gwblhau eu rhaglenni dysgu. Mewn sesiynau peirianeg ac adeiladu, mae dysgwyr yn dangos manwl gywirdeb mewn tasgau peiriannu a thasgau ymarferol, ac mewn darpariaeth ddigidol a TG, mae dysgwyr yn dylunio gwefannau, yn datblygu gemau ac yn creu datrysiadau rhaglennu yn annibynnol. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio terminoleg dechnegol ac sy'n benodol i bwnc yn gywir a hyderus. Maent yn cysylltu theori â chymhwyso byd go iawn, er enghraifft dysgwyr chwaraeon yn cymhwyso cysyniadau seicoleg chwaraeon i senarios perfformio eifft. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof ac yn adeiladu ar hyn yn effeithiol, gan ddatblygu eu medrau yn gynyddrannol dros gyfnod.

Mae gan lawer o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'u targedau, eu cynnydd a'u llwybrau dilyniant. Mae dysgwyr Safon Uwch yn disgrifio'u cynlluniau ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch ac yn gwybod p'un a ydynt ar y trywydd iawn i gyflawni eu targedau graddau dyheadol. Mewn meysydd galwedigaethol, mae dysgwyr yn deall eu targedau a'u proffiliau graddau amcanestynedig, a sut mae eu dysgu presennol yn cysylltu â chyflogaeth, prentisiaethau neu astudio pellach yn y dyfodol. Maent yn nodi eu cynnydd trwy ystod o systemau olrhain a phlatfformau digidol. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'r cynnydd maent yn ei wneud.

Ar draws y coleg, nid yw athrawon yn cael mynediad cyson at wybodaeth am anghenion cymorth dysgu unigol a sut dylid eu diwallu. Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw strategaethau i gymhwyso addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion cymorth dysgu unigol neu ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu cymhwyso'n effeithiol. O

ganlyniad, nid yw ychydig o'r dysgwyr hyn yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud tuag at eu nodau dysgu.

Mewn llawer o sesiynau, mae athrawon yn rhoi adborth adeiladol ac amserol sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae adborth ar ei gryfaf lle mae athrawon yn darparu adborth rheolaidd ar lafar i ddysgwyr unigol sy'n eu helpu i fireinio'u gwaith yn gyflym. Mewn ychydig o sesiynau, mae athrawon yn hwyluso adborth buddiol rhwng cyfoedion lle mae dysgwyr yn cynorthwyo'i gilydd i wella'u medrau. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn elwa ar adborth wedi'i gofnodi'n fanwl y gallant edrych yn ôl arno i gefnogi gwelliant. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw adborth a gofnodir yn ddigon manwl i gefnogi datblygiad dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn cyflwyno sesiynau difyr a strwythuredig. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn creu amgylcheddau cynhwysol lle mae dysgwyr yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan. Mae llawer o athrawon yn defnyddio'u harbenigedd pwnc yn dda i gyd-destunoli dysgu i gynorthwyo dysgwyr i gymhwyso'u medrau yng nghyd-destun y diwydiant o'u dewis, a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd dilyniant. Yn y sesiynau mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau ymarferol, arddangosiadau ac offer digidol i symbylu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys arddangosiadau arbenigol mewn darpariaeth ar y tir a defnyddio platfformau digidol ac ychwanegu gemau i gefnogi ymgysylltiad. Mae llawer o athrawon ar draws y coleg yn darparu cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i ddysgwyr ddatblygu creadigrwydd trwy ystod o ddulliau cydweithredol, gan alluogi dysgwyr sydd ag ychydig iawn o brofiad blaenorol i ddatblygu medrau newydd. Er enghraifft, mae dysgwyr ffotograffiaeth yn cofnodi delweddau o ymarferion bandiau byw, y mae dysgwyr cerddoriaeth yn eu trin a'u hymgorffori mewn riliau fideo i ddangos eu cynnydd.

Lle mae holi'n gryf, mae athrawon yn procio dealltwriaeth dysgwyr ac yn caniatáu amser meddwl priodol. Fodd bynnag, yn aml, mae diffyg manylder yn yr holi ac nid yw'n ddigon targedig, sy'n golygu bod dysgwyr yn aros yn oddefgar ac mae'n cyfyngu ar ddatblygu meddwl lefel uwch. Mewn ychydig o achosion, ni chaiff strategaethau athrawon ar gyfer ymestyn a herio dysgwyr eu hymgorffori'n ddigon da, yn enwedig ar gyfer dysgwyr mwy abl. Yn yr achosion hyn, nid yw gwaith yn ymestyn dysgwyr y tu hwnt i gwblhau tasgau sylfaenol.

At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau digidol cryf. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o blatfformau digidol i gefnogi eu dysgu ac yn datblygu cymwyseddau digidol sy'n berthnasol i'w meysydd galwedigaethol. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd buddiol o fewn sesiynau, fel amlygu gwybodaeth allweddol a defnyddio technegau darllen strwythuredig i gryfhau eu hyder a'u hamgyffrediad. Er enghraifft, mewn sesiynau criw caban, mae dysgwyr yn amlygu gwybodaeth allweddol fel

mater o drefn ac yn defnyddio geirfa dechnegol yn gywir mewn trafodaethau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn parhau i gynhyrchu gwaith gyda chamgymeriadau sillafu sylfaenol nad ydynt yn cael eu cywiro'n gyson. Mewn ychydig o sesiynau galwedigaethol, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio cyfesurynnau i gynllunio cardiau llwybr yn hyderus, ac mewn ffasiwn cynaliadwy, mae dysgwyr yn cymhwyso radiws a chylchedd i ddatrys problemau dylunio. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd y tu allan i sesiynau medrau dynodedig, fel mater o drefn, ac mae lleiafrif ohonynt yn aneglur ynglŷn â'u cynnydd neu ddisgwyliadau yn y meysydd hyn.

Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar draws y coleg sy'n cael cyfle i ymgymryd ag agweddau sylweddol ar eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn meysydd dysgu lle nodwyd bod y Gymraeg yn flaenoriaeth, er enghraifft iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, y diwydiannau creadigol a chwaraeon, mae nifer gynyddol o ddysgwyr yn cwblhau elfennau o'u rhaglenni gan ddefnyddio ychydig bach o Gymraeg. Yn y meysydd hyn, mae'r coleg wedi canolbwyntio'i ymdrechion ar hyfforddi a chefnogi staff ac annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith y dysgu. Fodd bynnag, ar draws darpariaeth, nid oes digon o sesiynau yn cynnwys cyfeiriad digonol at yr iaith Gymraeg, ei diwylliant, a chyd-destun Cymru.

Y deilliannau dysgwyr diweddaraf a wiriwyd yw mesurau perfformiad cyson (MPC) Medr ar gyfer 2024/25, er nad oedd data yn ei gyd-destun ar gael adeg yr arolygiad.

Yn gyffredinol, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr ar raglenni galwedigaethol wedi gwella ar draws y rhan fwyaf o lefelau dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae deilliannau ar eu cryfaf ar Lefelau 2 a 3, ac maent wedi bod yn unol â chyfartaleddau cenedlaethol, neu'n uwch, ar y cyfan. Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr ar raglenni Mynediad i Addysg Uwch wedi gostwng i fod ymhell islaw cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae cyfran y dysgwyr sy'n llwyddo ac yn cyflawni graddau uwch mewn tri chymhwyster Safon Uwch neu fwy dros ddwy flynedd wedi gwella'n sylweddol dros y cyfnod, ac yn cydfynd â chyfartaleddau cenedlaethol erbyn hyn. Mae cyfraddau cadw dysgwyr o Uwch Gyfrannol i A2 wedi dangos gwelliant, hefyd, er bod hyn yn parhau i fod ychydig bach islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y Dystysgrif Her Sgiliau wedi gwella'n sylweddol, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol erbyn hyn.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella cysondeb ac effeithiolrwydd holi i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr wedi ymgysylltu ac yn cael eu cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach a medrau meddwl lefel uwch
- Cryfhau'r defnydd o ymestyn a her mewn gwersi, yn enwedig ar gyfer dysgwyr mwy abl, trwy weithgareddau gwahaniaethu ac ymestyn gwell
- Gwella ansawdd a chysondeb adborth ysgrifenedig fel ei fod yn darparu arweiniad clir, y gellir gweithredu arno, i ddysgwyr wella
- Sicrhau bod yr addysgu yn cael ei addasu'n gyson i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- Ymgorffori datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd yn fwy systematig ar draws pob maes darpariaeth, y tu hwnt i sesiynau medrau ar wahân
- Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio medrau Cymraeg yn ystyrlon ar draws y cwricwlwm
- Gwella deilliannau i ddysgwyr ar raglenni Mynediad at Addysg Uwch a dysgwyr ag ADY

Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol, wedi'i gefnogi gan ystod eang o fannau cymunol bywiog ac ardaloedd tawelach, parthau astudio dynodedig, llyfrgelloedd cynhwysfawr, a mynediad at wybodaeth ac adnoddau, a caiff pob un o'r rhain eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr.

Ar draws y coleg, mae perthnasoedd rhwng staff a dysgwyr yn gryf a pharchus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn dysgu ac ym mywyd ehangach y coleg. Mae disgwyliadau cyson o amgylch ymddygiad a chyfrifoldebau yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a pharch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, ac yn datblygu medrau myfyriol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu hyder a'u hunan-barch trwy eu dysgu a chyfleoedd cyfoethogi ehangach, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn twrnameintiau chwaraeon a gwirfoddoli dramor. Mae'r profiadau bywyd go iawn hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu hyder, gwydnwch ac annibyniaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol ac ymddygiadau proffesiynol mewn lleoliadau ymarferol, sy'n cefnogi eu parodrwydd ar gyfer cyflogaeth a dilyniant yn y dyfodol.

Mae'r cyfleoedd i lais cyfunol dysgwyr gael ei glywed a dylanwadu ar arweinwyr yn gryfder ac yn cyfrannu at ddiwylliant lle mae dysgwyr yn aelodau gweithgar o gymuned y coleg. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig yn cymryd rhan mewn Senedd coleg ac yn gweithredu mentrau fel hyrwyddo gwahanol ddiwylliannau a dewis adnoddau ar gyfer llyfrgelloedd ar sail profiadau pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r coleg yn darparu cymorth targedig ar gyfer dysgwyr a allai wynebu heriau o ran cael mynediad at addysg bellach, yn cynnwys dysgwyr sy'n cael addysg yn y cartref, y rhai sydd â statws ffoadur neu geisiwr lloches, pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a gofalwyr ifanc. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys gwasanaethau lles arbenigol a chymorth ariannol teilwredig. Mae swyddogion pontio ac adolygu dynodedig yn gweithio'n agos gydag ysgolion ledled Castell-nedd Port Talbot a Phowys i gynorthwyo dysgwyr ag ADY wrth iddynt baratoi ar gyfer eu camau nesaf. Mae athrawon ysgol hefyd yn cynorthwyo disgyblion a dysgwyr coleg i weithio gyda'i gilydd ar brosiectau. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a chyflwyno cynhyrchiad y celfyddydau perfformiadol ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus yn Theatr Brycheiniog.

Mae'r coleg yn darparu ystod werthfawr o wasanaethau cymorth i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth academiaidd a lles fel benthyca dyfeisiau digidol, darparu manau diogel, a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chwmsela. Lle bo'n briodol, mae addysgu hybrid yn cefnogi parhad mewn dysgu ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu heriau yn gysylltiedig â chludiant neu iechyd. Mae dysgwyr hefyd yn elwa ar gael mynediad at wasanaethau allanol sy'n cefnogi eu hanghenion ehangach.

Ciplun: Dull cydlynus, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ar gyfer gwaith partneriaeth

Mae'r coleg wedi datblygu diwylliant lles hynod gydwethredol, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, trwy bartneriaethau mewnol ac allanol cryf. Mae timau ar draws y coleg yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu a sefydliadau'r trydydd sector i gydlynu cymorth amserol ac effeithiol, yn cynnwys prosesau derbyn cadarn, ymateb i anghenion iechyd meddwl a nodi dysgwyr sydd mewn perygl. Mae gweithio agos rhwng tiwtoriaid, timau cymorth dysgwyr, adnoddau dynol, ystadau a thimau dysgu proffesiynol yn sicrhau ymateb cyson a rhagweithiol i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, mae gwasanaethau llyfrgell yn darparu gwybodaeth ac arweiniad amserol sy'n cyd-fynd â'r rhaglen diwtorial. Mae'r gwaith partneriaeth effeithiol hwn yn sicrhau bod cymorth yn cael ei gydlynu'n dda, yn ymatebol ac yn ataliol, gan helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda.

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan y coleg ac yn teimlo'u bod yn elwa ar ymyriadau amserol a phersonoledig. Er enghraifft, defnyddir amserlenni llai dros dro yn dda pan fydd dysgwyr yn profi cyfnodau anodd yn eu bywydau, neu i'w galluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng chwaraeon elít a'u hastudiaethau.

Mae presenoldeb ar draws y coleg yn amrywiol ac nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu'n ddigon cyson. O ganlyniad, mae ymgysylltiad dysgwyr â dysgu a chyfranogiad yn y cymorth a'r cyfleoedd ehangach a gynigir gan y coleg yn llai. Mae gan arweinwyr ffocws cynyddol ar gofnodi presenoldeb yn y dosbarth ac maent yn defnyddio'r data hwn yn

effeithiol i nodi dysgwyr sydd mewn perygl. Fodd bynnag, mae effaith y trefniadau newydd hyn ar bresenoldeb yn ffocws i'w ddatblygu o hyd. Mae prydlondeb yn briodol, ar y cyfan, er bod ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd sesiynau'n hwyr, gan effeithio ar ddechrau dysgu yn esmwyth a pharodrwydd i ymgysylltu.

Mae gan y coleg weithdrefnau a strwythurau staffio sefydledig i fynd i'r afael ag ystod eang o anghenion dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn gwahaniaethu'n glir rhwng dysgwyr yr aseswyd bod ganddynt ADY ac felly angen cynllun datblygu unigol (CDU), a'r rhai y gellid diwallu eu hanghenion trwy'r ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol. Mae hyn yn rhwystro gallu'r coleg i werthuso'n effeithiol pa mor dda y mae anghenion dysgwyr a grwpiau unigol yn cael eu deall a'u diwallu.

Mae'r coleg yn darparu ystod eang o gyngor ac arweiniad, gyda llwybrau dilyniant clir ac amlygrwydd i gyfleoedd gyrfa sy'n helpu llawer o ddysgwyr i ddatblygu uchelgeisiau a chanolbwyntio ar nodau yn y dyfodol. Mae siaradwyr gwadd ac ymweliadau â diwydiant yn ysbrydoli dysgwyr ac yn cryfhau ymgysylltiad.

At ei gilydd, mae arferion diogelu yn y coleg yn gryf, yn systematig ac yn cael eu hymgorffori'n dda. Mae strwythurau llywodraethu ac adrodd clir, ynghyd â strategaeth ddiogelu sefydledig, yn sicrhau goruchwylio a monitro effeithiol. Mae gwaith partneriaeth cryf yn ymestyn rhannu deallusrwydd a dulliau ataliol, a mentrau fel 'Paned gyda Phlisman' yn ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol mewn gwaith rhagweithiol. Mae gwybodaeth am ddiogelu yn hynod weladwy ar draws campysau, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod sut i gael cymorth a rhoi gwybod am bryderon. Mae'r coleg yn parhau i gryfhau diogelwch campysau ac yn gweithredu dull yn seiliedig ar risg ar gyfer mynediad rheoledig, sy'n cyfrannu at amgylchedd dysgu diogel.

I wella ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella'r modd y mae'n gwahaniaethu rhwng dysgwyr ag ADY a'r rhai y gellir diwallu eu hanghenion trwy ddarpariaeth gyffredinol
- Cryfhau'r modd y mae'r coleg yn gwerthuso pa mor dda y mae'n diwallu anghenion dysgwyr ag ADY
- Gwella presenoldeb

Arwain a gwella

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi sefydlu gweledigaeth a chyfeiriad clir ar gyfer y coleg a gefnogir gan lywodraethu effeithiol a phartneriaethau cryf. Caiff ei gefnogi'n dda gan y pennaeth a'r is-benaethiaid sydd â rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Fel tîm, maent wedi creu diwylliant cadarnhaol o gyfathrebu ac ymgysylltu â staff i rannu a thrafod ystod eang o wybodaeth. O ganlyniad i'r ymgysylltu hwn, mae arweinwyr wedi mabwysiadu system amgen ar gyfer asesiad cychwynnol a diagnostig o lythrennedd a

rhifedd. Yn ychwanegol, diweddarwyd trefniadau rheoli perfformiad staff i gryfhau cysylltiadau â gweithgareddau dysgu proffesiynol unigol.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y coleg, wedi'i gefnogi gan gynlluniau strwythuredig sy'n cyd-fynd yn addas â blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu blaenoriaethau priodol ac yn cael eu deall gan staff ar draws y sefydliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu diffinio'n glir, sy'n helpu cefnogi atebolrwydd ar bob lefel. Mae arweinwyr wedi sefydlu sianelau cyfathrebu effeithiol, yn cynnwys briffiau rheolaidd gan y Prif Swyddog Gweithredol, diweddiadau a chyfleoedd ar gyfer deialog ddwy ffordd rhwng uwch arweinwyr ac aelodau staff eraill. O ganlyniad, mae llawer o aelodau staff yn teimlo'u bod yn cael eu hysbysu'n dda am flaenoriaethau'r coleg ac yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at y rhain.

At ei gilydd, mae trefniadau llywodraethu yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o berfformiad a blaenoriaethau'r coleg. Maent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth, yn cynnwys data perfformiad a meincnodi allanol, i graffu ar ddeilliannau a chefnogi gwneud penderfyniadau strategol. Mae prosesau sefydledig yn galluogi llywodraethwyr i ymgysylltu'n uniongyrchol ag arweinwyr y cwricwlwm a chyfrannu at osod targedau a chynllunio gwelliant. Mae hyn yn darparu her a chymorth priodol i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Mae uwch aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod angen cryfhau ystod o arbenigedd o fewn y corff llywodraethol ymhellach, yn enwedig o ran materion yn ymwneud â chyllid a'r cwricwlwm, yn sgil cynlluniau datblygu mawr ar gyfer ystadau a darpariaeth.

Ciplun: Gwaith partneriaeth i ymestyn cyfleoedd dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned

Mae arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cynhyrchiol ag ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, cyflogwyr ac asiantaethau allanol. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi ymatebolrwydd y coleg i flaenoriaethau lleol a rhanbarthol ac yn helpu llywio cynllunio'r cwricwlwm. Mewn ychydig o feysydd, mae mentrau cydweithredol, fel gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr a darpariaeth ar y cyd, yn ymestyn profiadau dysgwyr ac yn darparu cyfleoedd dilyniant gwerthfawr. Er enghraifft, mae darpariaeth a chyfleusterau yn Academi Chwaraeon Llandarsi a Theatr Hafren yn Y Drenewydd yn darparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at rôl y coleg o fewn ei gymunedau. Mae datblygiadau diweddar yn Aberhonddu yn ymestyn cyfleoedd dysgu ar gyfer y gymuned leol, yn ogystal â chefnogi adfywiad canol y dref.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir, ar y cyfan, o gryfderau'r coleg a'i feysydd i'w gwella, ac maent wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

Mae'r coleg wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso addas gydag arweinwyr a rheolwyr gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol, data perfformiad a gwybodaeth feincnodi i werthuso darpariaeth. Mae llawer o staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithgareddau adolygu, yn cynnwys adolygiadau cyrsiau a chynllunio gwella ansawdd. Mewn sawl maes allweddol, mae'r prosesau hyn yn arwain at welliannau buddiol. Er enghraifft, mewn agweddau ar arfer addysgu a chymorth dysgwyr, mae 'rhaglen mewnwelediadau' y coleg yn darparu cyfleoedd strwythuredig i ymarferwyr adolygu a myfyrio ar eu harfer addysgu trwy arsylwi, cymorth cymheiriaid a thrafodaeth broffesiynol. Fodd bynnag, mae effaith gyffredinol hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn rhy amrywiol ar draws y coleg. Nid yw arweinwyr yn sicrhau cysondeb digonol o ran pa mor effeithiol y caiff blaenoriaethau gwella eu gweithredu a'u monitro. Yn benodol, nid yw olrhain blaenoriaethau allweddol ar draws y coleg, fel datblygiad parhaus medrau Cymraeg a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, yn ddigon cadarn.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu proffesiynol ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer staff, yn cynnwys rhaglenni datblygu strwythuredig a chyfleoedd cydweithredol i rannu arfer effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn ystod diwrnodau adolygu a gwerthuso i rannu arfer a chefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu. Mae llawer o staff yn ymgysylltu'n dda â dysgu proffesiynol ac yn datblygu'n ymarferwyr myfyriol. Caiff staff eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr llinell, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae rhaglenni hyfforddiant rheoli yn helpu cefnogi darpar reolwyr yn eu datblygiad proffesiynol a'u dilyniant gyrfa mewnol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol yn ddigon systematig. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwybod pa weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar wella ansawdd yr addysgu a deilliannau dysgwyr.

Mae trefniadau rheoli gweithredol yn gadarn, ar y cyfan. Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau a phrosesau clir i gefnogi rhedeg y coleg o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau wedi'u diweddarau ar gyfer cofnodi a monitro presenoldeb, er nad yw pob un o'r staff yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf yn ddigon da i herio a chynorthwyo dysgwyr i wella'u presenoldeb yn y dosbarth. Ceir cyfathrebu effeithiol rhwng timau, ac mae llawer o staff yn ffurfio perthnasoedd gwaith cadarnhaol a chefnogol â chydweithwyr a rheolwyr. Er enghraifft, mae defnydd cyson o'r polisi newydd ar ymddygiad dysgwyr yn cael effaith gadarnhaol ac yn gwella ymddygiad ar draws y coleg.

Nid yw trefniadau ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr ag ADY yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA) yn ddigon clir, sy'n arwain at anghysondebau yn nealltwriaeth staff a chymhwyso prosesau ADY ar draws y coleg.

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol ac academiaidd ar draws ei feysydd dysgu. Mae llawer o gyrsiau yn rhoi cyfle i ddysgwyr symud ymlaen i'r lefel uwch nesaf. Mae'r coleg yn defnyddio ystod eang o wybodaeth am y farchnad lafur

leol a chenedlaethol i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn bodloni'r galw. Mae'r coleg wedi datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol â'i ysgolion lleol a'r ddau awdurdod lleol ar draws ei ranbarth daearyddol i wella'r wybodaeth a gaiff disgyblion a rhieni wrth ystyried mynychu'r coleg. Yn ychwanegol, mae'r coleg yn cydweithio ag is-gontractwr i ehangu cyfranogiad a chyflwyno darpariaeth arbenigol mewn cysylltiad â choedwigaeth, garddwriaeth, ac adfer natur.

I wella ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cryfhau arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth weithredol o ADY
- Gwella cysondeb ac effaith hunanwerthuso a chynllunio gwella ansawdd
- Datblygu trefniadau cadarn i werthuso effaith dysgu proffesiynol ar ansawdd yr addysgu a deilliannau dysgwyr
- Cryfhau ei strategaethau ar gyfer datblygu medrau Cymraeg ar draws y coleg

Gwybodaeth ychwanegol

Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn achosi unrhyw bryder.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, gweithdy ac ar-lein ar draws y ddarpariaeth
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddysgwyr...' neu 'ychydig iawn o ddysgwyr...'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2026